OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 1086

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007

## RHAN 9

Dirymiadau ac arbedion

**Dirymiadau, arbedion ac addasiadau**

**42.**—(1) Mae Rheoliadau 2002 i barhau i fod yn effeithiol heb ragfarnu adran 16 o Ddeddf Dehongli 1978(**1**) mewn perthynas â hawlio lwfansau neu daliadau eraill mewn cysylltiad â dyletswyddau a gyflawnir cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn unol â rheoliad 1(1)(b).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (1) dirymir drwy hyn Reoliadau 2002 ac eithrio i'r graddau y maent yn gymwys i —

(a) awdurdodau Parciau Cenedlaethol; a

(b) Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) 1991(**2**).

(3) Ni fydd adrannau 174, 175 a 177 o Ddeddf 1972 yn gymwys i awdurdodau.

(4) Wrth ei chymhwyso i awdurdodau bydd is-adran (2) o adran 176 o Ddeddf 1972 yn effeithiol fel pe bai'r cyfeiriad at adran 174 o Ddeddf 1972 yn gyfeiriad at y Rheoliadau hyn ac fel pe bai'r cyfeiriad at ddyletswydd a gymeradwywyd yn gyfeiriad at y term hwnnw fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau hyn.

(**1**) 1978 p.30.

(**2**) Dirymwyd O.S.1991/351 gan O.S. 2002/1895 ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â hawlio lwfansau neu daliadau eraill mewn cysylltiad â dyletswyddau a gyflawnwyd cyn 1 Ebrill 2002.